**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cabinet

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 20 Mai 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| R Francis-Davies | L S Gibbard | D H Hopkins |
| A S Lewis | C E Lloyd | J A Raynor |
| A H Stevens | M Thomas | |

| **Swyddog(ion)** | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr): C A Holley

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): E J King, A Pugh

---

## 125. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddion canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd J A Raynor gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 130 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol" a dywedodd ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

2) Datganodd y Cynghorwyr L S Gibbard a J A Raynor fudd personol a rhagfarnol yng Nghofnod 143 "Gwerthu Arfaethedig Tir Addysg Dros Ben yn Ysgol Olchfa”" a gadawon y cyfarfod cyn ei ystyried.

## 126. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2021.

## 127. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Etholiad Senedd Cymru ac Is-etholiadau Cyngor Abertawe – 6 Mai 2021

Llongyfarchodd Arweinydd y Cyngor aelodau lleol y Senedd ar gael eu hethol yn ddiweddar. Llongyfarchodd y Cynghorydd Hannah Lawson (ward etholiadol y Castell) a'r Cynghorydd Matthew Jones (ward etholiadol Llansamlet) hefyd ar gael eu hethol i Gyngor Abertawe.

### 2) Y Cynghorwyr C E Lloyd a J A Raynor

Talodd Arweinydd y Cyngor deyrnged i'r Cynghorwyr Clive E Lloyd a Jennifer A Raynor am eu gwaith rhagorol fel Aelodau'r Cabinet. Dywedodd y byddai'r ddau ohonynt yn rhoi'r gorau i fod yn Aelodau Cabinet yn hwyrach y diwrnod hwnnw.

Diolchodd i'r Cynghorydd Raynor am ei gwaith rhagorol fel Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau a'i llongyfarch ar ei chyflawniadau niferus yn ystod ei chyfnod yn y swydd.

Diolchodd i'r Cynghorydd Lloyd am ei waith rhagorol fel Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Gofal i Oedolion ac Iechyd Cymunedol, a'i waith blaenorol fel Aelod y Cabinet ar gyfer portffolios eraill y Cabinet ac fel cyn Ddirprwy Arweinydd y cyngor. Llongyfarchodd ef ar ei gyflawniadau niferus yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

## 128. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 129. Hawl i holi cynghorwyr.

Gofynnodd y Cynghorydd C A Holley nifer o gwestiynau mewn perthynas â Chofnod Rhif 137, "Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe".

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor.

## 130. Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol (ALl) ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y cyd ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau:

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Ystumllwynarth | Dr Martin Clift |

## 131. Cynllun Cyflawni Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru 21/22.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau ac Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Plant adroddiad ar y cyd a oedd yn manylu ar y cynllun cyflawni a gwario ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau 2021/22 ac yn amlinellu sut caiff gwasanaethau eu comisiynu i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gynaliadwy, yn creu arbedion effeithlonrwydd ac yn gwella canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Dylid nodi y derbyniwyd Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru ar gyfer 21/22.

2) Dylid cymeradwyo parhad ac ehangu prosiectau fel yr amlinellir yn y Cynllun Cyflawni y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru.

## 132. Cynllun Cyflawni Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru 21/22.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Gofal i Oedolion ac Iechyd Cymunedol ac Aelod y Cabinet dros Gartrefi, Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau adroddiad ar y cyd a oedd yn manylu ar y cynllun cyflawni a gwario ar gyfer Grant Cymorth Tai 2021/22 ac yn amlinellu sut caiff gwasanaethau eu comisiynu i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gynaliadwy, yn creu arbedion effeithlonrwydd ac yn gwella canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Dylid nodi derbyn Grant Cymorth Tai 21/22 Llywodraeth Cymru.

2) Dylid cymeradwyo parhad ac ehangiad prosiectau fel yr amlinellir yn y Cynllun Cyflawni y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru.

## 133. Ardal Gyhoeddus Dros Dro Bae Copr Dewi Sant.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn gofyn am gytuno ar dymoroldeb ac amodau cysylltiedig y mannau cyhoeddus dros dro, gan gynnwys y parc bach, a fydd yn cael ei osod yn ardal Dewi Sant fel rhan o raglen Bae Copr.

**Penderfynwyd**:

1) Cytuno ar osod yr ateb dros dro ar gyfer y man cyhoeddus yn ardal Dewi Sant i baratoi ar gyfer camau datblygu yn y dyfodol, yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

2) Cytuno ar osod parc bach dros dro ar safle hen unedau Dewi Sant 1-7, a'r amodau cysylltiedig:

a) I’w leoli ar y safle adfywio tir llwyd dros dro uchod am gyfnod o ddwy flynedd ar y mwyaf, gyda'r opsiwn o ymestyn yn amodol ar adroddiad pellach i'r Cabinet os na chyflawnir yr amserlen ddatblygu.

b) Gallu cau a symud y parc bach o'r safle cyn diwedd y tymor i baratoi ar gyfer gwaith datblygu a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lleoedd mewn ymgynghoriad ag Aelod Cabinet yr Economi, Cyllid a Strategaeth i benderfynu ar yr amseriad.

c) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, y Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Swyddog Cyfreithiol i gytuno ar osod unedau o fewn y parc bach ar delerau hyblyg ac ymwneud ag unrhyw ddogfennaeth sy'n angenrheidiol i ddiogelu buddiannau'r cyngor.

## 134. Rheol 7 y Weithdrefn Ariannol -Grant Adnewyddu Priffyrdd 2021-22

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd adroddiad a oedd yn ceisio cadarnhad ar gyfer y Rhaglen Waith Cyfalaf ar gyfer Grant Adnewyddu Priffyrdd Llywodraeth Cymru 2021 ac i gydymffurfio â Rheol Gweithdrefn Ariannol 7 i ymrwymo ac awdurdodi cynlluniau.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Caiff y dyraniadau dangosol arfaethedig eu cymeradwyo a'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

2) Dirprwyir awdurdod i Bennaeth y Gwasanaeth Priffyrdd a Chludiant gyda chydsyniad Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd i flaenoriaethu, cwblhau a chlustnodi'r arian i'r cynlluniau priodol yn unol â'r ymagwedd flaenoriaethu a nodwyd yn yr adroddiad.

## 135. Diweddariad ar y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Plant adroddiad a oedd yn amlinellu cynnydd Cynlluniau Hawliau Plant a Phobl Ifanc Abertawe ac yn ceisio cytundeb i gychwyn ymgynghoriad ar gynllun o dudalen o'r cynllun a gaiff ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y cyngor.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Nodir cynnwys Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2019 yn Atodiad 3 yr adroddiad.

2) Nodir cynnwys yr Adroddiad Pontio ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 yn Atodiad 2 yr adroddiad.

3) Cytunir ar ymgynghoriad ffurfiol ar gynllun tudalen o'r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

4) Cyd-gynhyrchir strwythur ffurfiol ar gyfer ymgysylltu mewn modd cynhwysol ac effeithiol â’r holl blant a phobl ifanc yn Abertawe.

## 136. Adroddiad Cynnydd ar Gydbwyllgor Corfforaethol De Orllewin Cymru.

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg ar y gofyniad i sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol ac yn gofyn am awdurdod dirprwyedig er mwyn i swyddogion gynnal trafodaethau â'r awdurdodau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad i ddatblygu cynigion addas ar gyfer trefniadau Cydbwyllgorau Corfforaethol yn Ne-orllewin Cymru.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodir y gwaith sy'n cael ei wneud a'r camau nesaf y mae eu hangen mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Cydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru.

2) Dirprwyir awdurdod i'r Prif Weithredwr (mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor) i gytuno i gyflwyno cais am arian grant i Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu Cydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ac i dderbyn unrhyw gynnig grant y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud (boed hynny i'r cyngor hwn neu i gyngor sy'n rhan o Gydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru).

3) Dirprwyir awdurdod i'r Prif Weithredwr gynnal deialog â'r awdurdodau hynny a fydd yn rhan o Gydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru i ddatblygu cynigion ar gyfer sefydlu Cydbwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru.

4) Dylid dod ag adroddiad pellach yn ôl i'w ddiweddaru mewn perthynas â chynnydd.

## 137. Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (Arweinydd y Cyngor) adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer goblygiadau ariannol Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe a'r camau y mae'r cyngor yn eu cymryd i gefnogi adferiad yr economi leol yn dilyn pandemig COVID-19.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cymeradwyir clustnodi swm o hyd at £20m i ariannu mentrau o fewn Cynllun Gweithredu Adferiad Economaidd Abertawe ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 a 2022/23.

2) Dirprwyir awdurdod i Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth, y Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Lleoedd weithredu Cynllun Adfer Economaidd Abertawe i gynnwys unrhyw fesurau neu fentrau pellach y gellir eu hychwanegu at y cynllun yn amodol ar y gyllideb gymeradwy fel y nodir yn yr adran goblygiadau ariannol. Mae'r Cabinet hefyd yn awdurdodi dirprwyo awdurdod wedi hynny i aelod y cabinet a phennaeth y gwasanaeth sy'n

berthnasol i elfen benodol y Cynllun Gweithredu Adfer Economaidd sydd i'w gyflawni ac yn amodol ar y gyllideb gymeradwy.

**138. Gwahardd y cyhoedd: -**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**139. Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu - Datblygu 71/72 Ffordd y Brenin a 69/70 Ffordd y Brenin - Achos Busnes (FPR7). (Llafar)**

Cyflwynodd y Cynghorydd C A Holley yr adborth craffu cyn penderfynu.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Nodi cynnwys yr adborth ar graffu cyn penderfynu.

**140. Datblygu 71/72 Ffordd y Brenin a 69/70 Ffordd y Brenin - Achos Busnes (FPR7).***

***Gweithdrefn Galw i Mewn - Testun Craffu cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn yn rhydd o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun Craffu Cyn Penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn darparu’r diweddaraf ar ddatblygu 71 a 72 a 69 a 70 Ffordd y Brenin. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am awdurdodiad cyllidebol i ychwanegu'r prosiect at y Rhaglen Gyfalaf yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol (FPR7) ac awdurdodiadau dirprwyedig.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

**141. Awdurdodi Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Prosiect Hwb Cymunedol Cefn Hengoed.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau ac Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y cynllun costau diweddaredig er mwyn parhau i'r cam

tendro, a chyflwyno cynnig i'r *Football Foundation* i osod arwyneb chwarae 3G dan do fel rhan o'r datblygiad, yn amodol ar gymeradwyo ceisiadau cynllunio a chwblhau'r broses dendro.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

**142. Cynllun Cyfnewidfa Priffordd Pont Baldwin, Fabian Way - Caffael tir ac adeilad.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer telerau y cytunwyd arnynt ar gyfer caffael eiddo mewn cysylltiad â'r cynllun. Caiff y tir ei brynu yn ôl cyfarwyddyd y cleient Priffyrdd fel rhan o'r rhaglen cydosodiad tir ar gyfer cynllun Ffordd Fabian.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

**143. Gwerthu Arfaethedig Tir Addysg Dros Ben yn Ysgol Olchfa.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad a oedd yn ceisio caniatâd i gael gwared ar dir dros ben yn Ysgol yr Olchfa, am y pris gorau, am swm sy'n fwy na chyfyngiadau'r awdurdod dirprwyedig.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.47 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 20 Mai 2021 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 25 Mai 2021 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 26 Mai 2021 |